


Taith Gerdded Llandeilo a Pharc Dinefwr



Llandeilo



Eglwys Llandyfeisant



Plas Dinefwr



Pam Cerdded?

Taith odidog drwy'r dref a'r wlad. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys Eglwys Teilo Sant, Castell Dinefwr a Phlas Dinefwr. Ym mis Mai, gallwch weld Coed y Castell yn frith o glychau'r gog.



Pa mor Hir?

Mae'r llwybrau niferus ar yr ystâd yn golygu y gellir mynd am daith hir, ganolig neu fer.



Pa mor Anodd?

Mae'r daith gerdded gylchol allanol ym Mharcdir Dinefwr tua 6 chilometr o hyd dros dir cymysg. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybrau yn y parc o raddiant rhesymol, ac mae arwyneb da ar lawer ohonynt, sy'n golygu eu bod yn ddelfrydol i'r cerddwr llai abl neu'r sawl sydd am fynd am dro hamddenol. Prin yw'r rhannau serth ac mae modd eu hosgoi gan amlaf. Gan fwyaf, llwybrau diwyneb drwy gaeau yw'r llwybr gogleddol.



Man Cychwyn / Maes Parcio - Canol Tref Llandeilo neu Gastell a Pharc Dinefwr (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)



Mae llefydd parcio i bobl anabl ar gael yn agos i'r Castell, Plas Dinefwr a Pharc y Ceirw.




Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓



Lluniaeth - ✓

- Mae **Eglwys Teilo Sant**, sydd wedi rhoi ei henw i'r dref, yn sefyll ar safle mynachlog ac eglwys y dywedir iddynt gael eu sefydlu gan Teilo Sant yn y bumed ganrif. Yn y canol oesoedd roedd Dinefwr yn ystâd bwysig i Esgob Tyddewi, a chynhelid marchnadoedd a ffeiriau rheolaidd yn Heol y Brenin. Rhannwyd mynwent fawr eglwys blwyfol Teilo Sant yn ei hanner gan welliannau i'r ffordd yn yr 1850au.
- Mae **Plas Dinefwr** yn dyddio'n ôl i 1660 ond cafodd ei newid yn sylweddol yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafodd y tiroedd o amgylch y Plas eu tirwedd gan Capability Brown. Yn ystod cyfnod y Tuduriaid adeiladodd Syr Rhys ap

Mannau o Ddiddordeb



Thomas, un o brif gefnogwyr Harri Tudur, y plasty cyntaf yno ar safle'r fwrdeistref ganoloesol. Daeth ei ddisgynyddion yn Arglwyddi Dinefwr, un o deuluoedd tîrfeddiannol mwyaf nodedig de Cymru. Mae Plas Dinefwr a'i barcdir hardd yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac, fel adfeilion trawiadol Castell Dinefwr, ar agor i'r cyhoedd.

- Daeth **Castell Dinefwr** yn ganolfan i rym brenhinol tywysogion teyrnas y Deheubarth. Tywysog enwocaf y deyrnas honno oedd Rhys ap Gruffudd, a lwyddodd i arafu'r Goncwest Normanaidd, a bu'r castell yn gadarnle i dywysogion y Deheubarth tan iddynt gael eu gorchfygu ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Defnyddid y castell gan ddisgynyddion y tywysogion, y teulu Rice o Blas Dinefwr, fel adfail rhamantaidd ac ychwanegwyd hafdy at y gorthwr cylchol.
- Ceir tystiolaeth ym Mharc Dinefwr o **Fryngaer Oes Haearn** gynhanesyddol, a sefydlodd y fyddin Rufeinig gaer filwrol yno. Darganfuwyd dwy Gaer Rufeinig, y naill yn gorchuddio'r llall, yma yn 2003 a chawsant eu cloddio gan archeolegwyr.

- Rhoddyd y gorau i addoli yn **eglwys Llandyfeisant** yn 1961. Hon unwaith oedd man addoli Arglwyddi Dinefwr, a chafodd ei hailadeiladu'n llwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn lle eglwys ganoloesol. Credir iddi gael ei chodi ar sylfeini teml Rufeinig.
- Fferm Plas Dinefwr** oedd prif fferm yr ystâd. Byddai ei gardd furiog fawr wedi cyflenwi llysiau a ffrwythau ffres i Blas Dinefwr.
- Gellir gweld yr **Hydd Brith** a brid hynafol y Gwartheg Gwynion o diroedd Plas Dinefwr neu o lwybrau'r parcdir.
- Mae **dolydd Dyffryn Tywi** yn llefydd da i weld amrywiaeth o adar coetir a gwlypdir.
- Gwarchodfa Natur ym mherchnogaeth a than reolaeth Ymddiriedolaeth Natur Gorllewin Cymru yw **Coed y Castell**. Enghraifft hyfryd yw hon o goetir hynafol, cynefin prin, a chartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Gorwedd olion hen dref Dinefwr yn y coetiroedd cyfagos.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com